

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWDYD DDYDD MERCHER 26 CHWEFROR 2020 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 13:00)

Aelodau CFfDLC yn bresennol: Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Theo Joloza (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru: Mark Jones

Cynrychiolydd Deloitte: Ian Howse

Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru: Sean Gaffney

Swyddogion CFfDLC: Shereen Williams (Prif Weithredwr), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes)

Diolchodd y Cadeirydd i David Powell am gamu i'r adwy fel y Cadeirydd Dros Dro yn y cyfarfodydd ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2019, ac i Julie May am fynychu'r cyfarfod ym mis Tachwedd 2019 fel aelod dros dro.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr).

2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Cyngor fod sawl mater yn weddill o hyd yn dilyn y cyfarfod blaenorol.

4.2 Roedd ymateb yn cael ei ddisgwyl o hyd gan Lywodraeth Cymru am yr adroddiadau archwilio mewnol TGCh a gofynnodd y Pwyllgor amdanynt ar gyfer 2017-18, er gwaethaf anfon sawl neges atgoffa. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn parhau i ofyn am yr adroddiadau gan Lywodraeth Cymru.

Gweithredu: Prif Weithredwr **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020.

4.3 Atgoffodd Ian Howse y Pwyllgor y nodwyd yn y cyfarfod blaenorol bod yr adroddiad archwilio mewnol canol blwyddyn yn cynnwys sylw bod cyfyngiadau â Chytundeb Lefel Gwasanaeth Microsoft Online Services. Roedd y cyfyngiadau'n ymwneud â'r ffaith nad yw'r cytundeb yn berthnasol i unrhyw faterion yn ymwneud â pherfformiad neu argaeledd yn deillio o fethiannau mewn lleoliad un Canolfan Ddata Microsoft pan fo cysylltedd CFfDLC â'r rhwydwaith yn dibynnu'n benodol ar y lleoliad hwnnw mewn modd nad yw'n ddaearyddol gydnherth. Felly, roedd angen deall a oedd CFfDLC yn

dibynnu ar leoliad un Canolfan Ddata Microsoft. Dywedodd Sean Gaffney fod y mater yn ymwneud â chysylltedd â'r rhyngwyd. Tynnodd sylw at y ffaith fod Microsoft yn gyfrifol am gysylltedd â'r rhyngwyd yn eu pen nhw yn unig, a bod CFfDLC yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir ei gysylltedd ei hun â'r rhyngwyd. Ystyriwyd, pe byddai CFfDLC yn colli ei gysylltedd drwy Rwydwaith Sector Cyhoeddus Cymru (PSBA), bod opsiynau eraill ar gael, fel staff yn gweithio gartref ac yn defnyddio eu cysylltiadau WiFi eu hunain, neu CFfDLC yn prynu llecyn WiFi 4G wrth gefn i'r cysylltiad PSBA. **Cytunwyd**, o ystyried yr opsiynau cysylltedd eraill, bod risgiau Cytundeb Lefel Gwasanaeth Microsoft Online Services yn finimol ac y gellid eu goddef.

5. Cynllun Gwaith 2019-20 y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 5.1 Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith 2019-20, a oedd yn cynnwys y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau pellach.

6. Archwilio Allanol: Cynllun Archwilio 2020

- 6.1 Esboniodd Mark Jones fod y Cynllun Archwilio ar gyfer 2020 yn amlinellu'r gwaith arfaethedig ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2019-20. Roedd yn cynnwys y lefelau perthnasedd ar gyfer yr archwiliad a'r crynodeb o gyfrifoldebau yn ymwneud â thystio bod datganiadau ariannol y Comisiwn yn gywir ac yn deg, ac yn cadarnhau rheoleidd-dra gwariant y Comisiwn. Tynnodd sylw'r Pwyllgor at Arddangosyn 2, a oedd yn nodi'r prif risgiau archwilio a all arwain at gamddatganiadau sylweddol yn y cyfrifon ac a fyddai'n mynnu ystyriaeth arbennig yn ystod yr archwiliad. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Y risg o reolwyr yn diystyru rheolaethau. Bydd yr ymateb archwilio yn profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, yn adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ac yn gwirio trafodion sylweddol;
- Y risg yn ymwneud â'r gwendid mewn rheolaeth dros gymeradwyo taliadau banc ar-lein a nodwyd yn ystod archwiliad y flwyddyn gynt.

- 6.2 Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys manylion am y tîm a'r amserlen archwilio ac yn amlinellu ffi archwilio ar gyfer y flwyddyn, a oedd wedi cynyddu rhywfaint, sef 2.9% o gymharu â'r flwyddyn gynt. Nodwyd bod yr holl staff a fyddai'n cynnal y gwaith archwilio yn newydd i CFfDLC, ond dywedodd Mark Jones y dylai Swyddfa Archwilio Cymru allu amsugno unrhyw gostau ychwanegol yn ymwneud yn uniongyrchol â staff yn cymryd amser i ymgynefino â CFfDLC.

- 6.3 Roedd Atodiad 2 yn amlinellu newidiadau i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn y dyfodol sy'n berthnasol i lywodraeth ganolog. Nodwyd mai'r newid a fyddai'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar CFfDLC fyddai IFRS 16 yn ymwneud â'r newid i'r modd y caiff prydesi gweithredu eu trin wrth gyfrifyddu, a fydd yn cael ei roi ar waith yn 2020-21. Crybwyllwyd y rhoddwyd gwybod i gyfrifyddion CFfDLC am yr amserlen ar gyfer mabwysiadu IFRS 16.

- 6.4 Nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio ar gyfer 2020.

7. Archwilio mewnol: Adroddiad Archwilio Diwedd Blwyddyn ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2019-20

- 7.1 Crybwyllodd Ian Howse fod y gwaith archwilio a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2020 wedi cwmpasu Bancio a Rheoli Arian Parod ac arolygon y Comisiwn Ffiniau i Gymru/Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, ynghyd â gweithgarwch dilynol ar argymhellion blynyddoedd blaenorol. Roedd yr archwiliad wedi arwain at Sgôr Sicrwydd Archwilio Cymedrol ar gyfer Bancio ac Arian Parod ac arolygon y Comisiwn Ffiniau i Gymru/CFfDLC.
- 7.2 Nododd y Pwyllgor yr argymhellion a godwyd, gan gynnwys argymhellion o 4 blwyddyn flaenorol yn ymwneud â'r arolygon, ac ymatebion rheolwyr. Eir i'r afael â'r argymhellion archwilio hyn yn fanylach yn eitem 10 ar yr agenda.
- 7.3 Roedd yr adroddiad yn cynnwys sylw fod gan CFfDLC orchymyn banc a bennwyd yn 2015 â chopïau o newidiadau dilynol, ac roedd yn awgrymu y dylai CFfDLC geisio cael fersiwn gyfredol o'r gorchymyn banc gan Barclays. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ceisio cael copi ohono gan Barclays.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020
- 7.4 Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-20 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith archwilio a'i ganfyddiadau, ac yn rhoi sgôr sicrwydd cyffredinol 'Cymedrol' i CFfDLC ar sail y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn cynnwys hunanasesiad Deloitte o'i berfformiad wrth gyflawni'r gwaith archwilio yn ystod y flwyddyn. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r sicrwydd y mae'n ei roi, ac roedd o'r farn bod y sgôr Cymedrol yn siomedig o ystyried asesiadau blynyddol blaenorol, a byddai'n sicrhau gwelliant y flwyddyn nesaf.

8. Holiadur Blynyddol yr Asesiad Archwilio Mewnol 2019-20

- 8.1 Cynigiwyd y byddai aelodau a'r Swyddog Cyfrifyddu yn ymgynnull ar ôl y cyfarfod i ystyried a llenwi'r holiadur. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn dadansoddi ymatebion yr aelodau ac yn adrodd ar y canlyniadau yn y cyfarfod nesaf.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020

9. Adolygiad o'r Ymatebion i Holiadur Hunansicrwydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 9.1 Nododd y Pwyllgor yr ymatebion i'w holiadur hunanasesu blynyddol, a oedd yn nodi y dangoswyd yr holl arfer da. **Penderfynwyd** y byddai'r Pwyllgor yn parhau â'r ymarfer hunanasesu bob blwyddyn ac yn ymdrechu i gynnal y safon uchel bresennol o gydymffurfio ag arfer da.
- 9.2 Roedd y Pwyllgor o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol ymestyn yr ymarfer i gynnwys safbwyntiau'r archwilwyr mewnol ac allanol. **Cytunwyd** y byddai adborth llafar ar effeithiolrwydd y Pwyllgor yn cael ei geisio gan yr archwilwyr yn y cyfarfod caeedig blynyddol a gynhelir â nhw ar ôl cyfarfod y Pwyllgor.

10. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

- 10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd ar yr argymhellion archwilio sy'n weddill. Nodwyd bod yr argymhelliad o archwiliad allanol 2018-19, sef y dylai CFfDLC gryfhau ei reolaethau talu, wedi'i hepgor mewn camgymeriad. Crybwyllwyd bod yr argymhelliad hwn wedi'i roi ar waith yn rhannol. **Cytunwyd** y byddai'r argymhelliad hwn yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau archwilio yn y dyfodol.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020
- 10.2 Nodwyd bod yr argymhelliad a oedd weddill o archwiliad allanol 2017-18, sef y dylai CFfDLC sicrhau bod ei drefniadau TGCh newydd yn cynnwys rheolaethau cadarn ar gyfer storio data a chreu copiâu wrth gefn, wedi'i roi ar waith erbyn hyn ar ôl cael sicrhau gan Cymwysterau Cymru ynghylch canlyniad yr Adolygiad Diogelwch Cwmwl.
- 10.3 O ran yr argymhelliad a oedd yn weddill o 2017-18, sef y dylid adolygu polisiau CFfDLC a chynnwys dyddiadau'r adolygiad a'r adolygiad nesaf, nodwyd bod yr adolygiad o bolisiau bron â'i gwblhau erbyn hyn, a dim ond un polisi a oedd yn weddill a fyddai'n cael ei fabwysiadu'n ffurfiol yn y cyfarfod ym mis Mawrth.
- 10.4 O ran yr argymhelliad a oedd yn weddill o 2018-19, sef y dylai CFfDLC weithredu rhestr wirio ar gyfer arolygon Seneddol y Comisiwn Ffiniau i Gymru, disgwylir y bydd y rhestr wirio'n cael ei ddrafftio erbyn 31 Mawrth 2020.
- 10.5 O ran yr argymhelliad o 2019-20, sef y dylai CFfDLC feithrin cysylltiad cryfach rhwng yr amcanion corfforaethol a pherfformiad staff, nodwyd bod y feddalwedd rheoli perfformiad staff a fabwysiadwyd yn ddiweddar, sef Clear Review, yn cynnwys cysylltiadau ag amcanion corfforaethol ar gyfer pob amcan staff, ac felly y gellid ystyried bod yr argymhelliad hwn wedi'i roi ar waith.
- 10.6 O ran yr argymhelliad o 2019-20, sef y dylai CFfDLC alinio ei ymatebion risg â'i barodrwydd i dderbyn risg, ystyriwyd y byddai angen rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau i roi'r argymhelliad hwn ar waith. Gallai CFfDLC benderfynu goddef risgiau a oedd uwchlaw ei lefel parodrwydd i dderbyn risg neu bennu lefel unigol i bob risg. **Cytunwyd** y byddai Deloitte yn rhoi ystyriaeth bellach i'r sgôr sicrwydd Cymedrol ar gyfer Rheoli Risg ac yn penderfynu a ddylid ei chynyddu i Sylweddol.
Gweithredu: Deloitte **Erbyn:** 31 Mawrth 2020
- 10.7 O ran argymhelliad 2019-20 bod CFfDLC yn deall y risg y mae'n ei hwynebu o ganlyniad i beidio â chadw copiâu wrth gefn digyswllt, crybwyllwyd bod CFfDLC wedi cytuno i gadw hyn mewn cof a goddef y risg gysylltiedig yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2019, ac felly y gellid ystyried bod yr argymhelliad hwn wedi'i roi ar waith.
- 10.8 Derbyniwyd yr argymhelliad o 2019-20, sef y dylai CFfDLC adolygu a llofnodi'r cysoniadau banc misol a geir gan ei gyfrifyddion, â dyddiad gweithredu o 31 Mawrth 2020.
- 10.9 Derbyniwyd yr argymhelliad o 2019-20, sef y dylai CFfDLC adolygu ei weithdrefnau rheoli arian parod yn rheolaidd a drafftio gweithdrefnau rheoli banc, â dyddiad gweithredu o 30 Medi 2020.
- 10.10 Derbyniwyd yr argymhelliad o 2019-20, sef y dylai CFfDLC adolygu ei weithdrefnau Arolygon yn rheolaidd, â dyddiad gweithredu o 31 Mawrth 2020.

- 10.11 Derbyniwyd yr argymhelliad o 2019-20, sef y dylid sicrhau bod Cofrestr Hyfforddiant CFFDLC yn gyfredol a'i hadolygu'n rheolaidd, â dyddiad gweithredu o 31 Mawrth 2020.
- 10.12 Derbyniwyd yr argymhelliad o 2019-20, sef y dylai CFFDLC gofnodi ei amseroedd ymateb targed ar gyfer cynrychiolaethau er mwyn sicrhau y cedwir at amseroedd ymateb, â dyddiad gweithredu o 31 Mawrth 2020.
- 10.13 Gwrthodwyd yr argymhelliad o 2019-20, sef y dylai CFFDLC gofnodi'n fanylach y manylion personol a gedwir er mwyn gallu cynnal asesiad risg penodol, gan yr ystyriwyd bod y gweithdrefnau presennol yn ddigonol ar gyfer lefel a maint y data personol sy'n cael ei gadw.
- 10.14 Derbyniwyd yr argymhelliad a ailgodwyd o'r flwyddyn gynt, sef sicrhau y caiff rhestrau gwirio arolygon eu llenwi a'u hadolygu'n llawn er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys pob tasg, â dyddiad gweithredu o 31 Mawrth 2020.
- 10.15 Derbyniwyd yr argymhelliad a ailgodwyd o'r flwyddyn gynt, sef y dylid gwirio rhestrau gwirio arolygon yn fanylach cyn eu llofnodi, ac roedd wedi'i roi ar waith.
- 10.16 Derbyniwyd yr argymhelliad a ailgodwyd o'r flwyddyn gynt, sef y dylid llenwi rhestrau gwirio sicrhau ansawdd yn eu cyfanrwydd cyn eu llofnodi, ac roedd wedi'i roi ar waith.

11. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2019-20

- 11.1 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad drafft Cadeirydd y Pwyllgor Atal ac Archwilio Risg, ac roedd yn **cytuno** ag ef yn amodol ar y newidiadau canlynol:
- Y dylid diwygio paragraff 2.3 i adlewyrchu presenoldeb cynrychiolwyr archwilio allanol ac archwilio mewnol yn y cyfarfod;
 - Y dylid ychwanegu paragraff 3.2 newydd i adlewyrchu diwedd y contract archwilio mewnol cyfredol a'r ymarfer tendro ar gyfer contract newydd;
 - Y dylid diwygio paragraff 3.7 i adlewyrchu bod yr argymhellion archwilio a ailgodwyd o'r llynedd yn ymwneud â'r rhaglen arolygon sy'n mynd rhagddi;
 - Y dylid diwygio paragraff 5.1 i ddatgan y caiff cyfarfodydd blynyddol cyfrinachol eu cynnal â'r holl archwilwyr, yn hytrach nag archwilwyr mewnol yn unig;
 - Y dylid diwygio paragraffau 5.1 ac 8.1 i gyfeirio at y Swyddog Cyfrifyddu fel 'hi' yn hytrach nag 'ef';
 - Y dylid newid paragraff 6.2 Risgiau a Nodwyd i gynnwys risg arolwg Sir Fynwy a chyfeirio at Wobr Iechyd y Gweithle Bach;
 - Y dylid ychwanegu cyfeirio ym mharagraff 6.3 at y cwestiynau iechyd a lles newydd sy'n cael eu hychwanegu at yr arolwg staff;
 - Y dylid diwygio paragraff 6.6 i ***with agreed policy and practice***;
 - Y dylid ychwanegu cyfeiriad yn Atodiad 2 at arolwg y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg o Bensiynau a Chofrestrau Risg TGCh yng ngholofn Lefel 3;
 - Yn Atodiad 2, dylid symud Gwobr Iechyd y Gweithle Bach i golofn Lefel 3.
- 11.2 **Cytunwyd** ar yr adroddiad yn amodol ar y newidiadau arfaethedig.

12. Datganiad Llywodraethu Drafft 2019-20

12.1 Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu drafft. Nodwyd a diwygiwyd sawl mân wall teipio. Hefyd, cytunwyd ar y newidiadau canlynol:

- Y dylid diwygio penawdau'r tablau'n yn adran 3.5 yn dangos presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd i ddangos nifer y cyfarfodydd roeddent yn gymwys i'w mynychu, yn hytrach na chyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn;
- Y dylid ychwanegu testun ychwanegol ar ddiwedd y paragraff cyntaf yn adran 4, sef 'i roi sicrwydd i broses Rheoli Risg y Comisiwn.'; ac
- Y dylid cynnwys cyfeiriad at iechyd a lles yn y tabl yn adran 4 sy'n dangos camau lliniaru Risgiau a Nodwyd.

12.2 **Cytunwyd** y byddai'r Cynllun Gweithredol terfynol yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor wedi iddo gael ei gadarnhau.

Gweithredu: Prif Weithredwr **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020

12.3 **Cytunwyd** y byddai'r Datganiad Llywodraethu diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'w fabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod CFfDLC ym mis Mawrth.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 31 Mawrth 2020

13. Cofrestr Risg Pensiynau CFfDLC

13.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn gyfredol cofrestr risg pensiynau CFfDLC, ynghyd â chofnod o'r newidiadau a wnaed ers yr adolygiad diwethaf. **Cytunwyd** y dylid adolygu risg PEN4 yn ymwneud ag ymunwyr ac ymadawyr, ac ystyried lleihau'r sgôr risg gweddilliol.

14. Cofrestr Risg TGCh CFfDLC

14.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn gyfredol cofrestr risg TGCh CFfDLC, ynghyd â chofnod o'r newidiadau a wnaed ers yr adolygiad diwethaf. **Cytunwyd** y byddai'r Tîm Rheoli yn adolygu'r gofrestr ac yn ystyried pa risgiau y gellid eu goddef a pha rai y mae angen eu lliniaru ymhellach.

Gweithredu: Rheolwr Busnes **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020

15. Adroddiad Rheoli Risg

15.1 Nododd y Pwyllgor y cofrestrau a'r polisi risg cyfredol. Rhoddwyd manylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

15.2 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn adolygu'r cofrestrau risg a sefydlu system Trin neu Goddef gan ddefnyddio'r golofn agosrwydd i gofnodi'r dynodiad ar gyfer pob risg a rhoi ystyriaeth bellach i'r sgorau risg effaith.

15.3 Ystyriwyd y dylid adolygu sgorau risg Risg Gweithredol OP11 yn ymwneud â diogelwch adeiladau, ac OP18 yn ymwneud â diogelu data.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020

16. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

- 16.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion adroddiad y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 28 Ionawr 2020.

17. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

- 17.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o roddion a lletygarwch ar gyfer 2019-20 hyd yn hyn.

18. Cwynion

- 18.1 Nododd y Pwyllgor y gŵyn a gafwyd o Ben-y-bont ar Ogwr, a oedd wedi'i datrys a'i chau.

19. Adroddiad Chwythu'r Chwiban a Thwyll

- 19.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

20. Adroddiad ar Ddiogelwch Data a TGCh

- 20.1 Crybwyllwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.
- 20.2 Amlinellodd Sean Gaffney brif bwyntiau'r Adroddiad Diogelwch TGCh newydd. Tynnodd sylw'r Pwyllgor ar y rhestr o ymosodiadau seiber diweddar ar sefydliadau amrywiol, ac esboniodd mai bwriad hyn oedd codi ymwybyddiaeth o'r bygythiadau sy'n cael eu canfod yn y gymuned TG ar hyn o bryd. Roedd yr adroddiad hefyd yn dangos bod holl gyfrifiaduron CFfDLC yn cael y diweddariadau system a diogelwch diweddaraf.
- 20.3 O ran hyfforddiant gwe-rwydo ar-lein ychwanegol i Aelodau, ystyriwyd mai'r ffordd orau ymlaen fyddai i Cymwysterau Cymru gynnal sesiwn hyfforddiant ar ôl un o gyfarfodydd y Comisiwn neu'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg. **Cytunwyd** y byddai sesiwn hyfforddiant i Aelodau yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.
Gweithredu: Cymwysterau Cymru **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020.
- 20.4 Dywedodd Theo Joloza fod ganddo brofiad o hyfforddiant diogelwch y rhynggrwyd Hut Six a fyddai'n werth ei ystyried. **Cytunwyd** y byddai Cymwysterau Cymru yn gwerthuso meddalwedd Hut Six i asesu ei haddasrwydd ar gyfer staff ac Aelodau CFfDLC.
Gweithredu: Cymwysterau Cymru **Erbyn:** 29 Gorffennaf 2020.

21. Unrhyw fater arall

- 21.1 Nododd y Comisiwn na fyddai Deloitte yn parhau fel Archwilwyr Mewnol CFfDLC bellach ar ôl i'r contract cyfredol ddod i ben ar 31 Mawrth. Diolchodd y Cadeirydd i Ian Howse, ar ran y Pwyllgor, am ei holl gymorth a chefnogaeth yn y gorffennol.

23. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- 23.1 Caiff y dyddiadau dros dro canlynol eu cynnig ar gyfer y cyfarfodydd nesaf:

Dydd Mercher 29 Gorffennaf 2020

Dydd Mercher 25 Tachwedd 2020

Dydd Llun 24 Chwefror 2021.

- 23.2 Byddai cadarnhad o'r dyddiadau hyn yn cael ei anfon at aelodau drwy'r e-bost.